TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

City & Guilds Diploma mewn Atgyweirio Damweiniau (Egwyddorion Paent) Lefel 2

Yn gryno

Bydd y cwrs hwn yn gwella eich gwybodaeth dechnegol ac academaidd am dechnoleg cerbydau.

Dyma'r cwrs i chi os...

...Ydych wedi cwblhau Lefel 1 neu Lefel Mynediad 3 mewn egwyddorion paent

...Oes gennych brofiad yn y diwydiant ailorffen cerbydau

...Ydych eisiau ehangu eich sgiliau a'ch gwybodaeth

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae'r cwrs yn barhad o'r cwrs llawn amser yn y flwyddyn gyntaf ar gyrff cerbydau ac ailorffen cerbydau, ac mae'n rhoi sylw mwy manwl i ailorffen. Byddwch yn ymdrin â thaenu paent 2K,

deunyddiau seiliedig ar ddwr a deunyddiau seiliedig ar bethau eraill, a hefyd byddwch yn ystyried gwahanol dechnegau taenu, fel technegau trwsio llecynnau bach, technegau ymdoddi a thechnegau 'rhedeg i mewn'.

Byddwch yn ymdrin ag unedau'n ymwneud â'r canlynol:

Gwybodaeth am iechyd a diogelwch
Gwybodaeth am gymorth ar gyfer rolau swyddi
Gwybodaeth am offer a chyfarpar a ddefnyddir i ailorffen cerbydau
Gwybodaeth am ddefnyddio deunyddiau llenwi a chôt sylfaen
Gwybodaeth am weithio gyda phlastigau
Gwybodaeth am baratoi arwynebau metel ac arwynebau wedi'u paentio
Gwybodaeth am drwsio mân ddiffygion ar arwynebau paent

Bydd y cwrs yn cael ei gyflwyno trwy gyfuniad o'r canlynol:

Arddangosiadau ymarferol
Tasgau gwaith realistig
Darlithoedd er mwyn datblygu gwybodaeth sylfaenol
Aseiniadau

Byddwch yn cael eich asesu trwy gyfrwng asesiadau ymarferol ac asesiadau ar-lein, cwestiynau llafar a chwestiynau ysgrifenedig. Ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch yn ennill:

Lefel 2 mewn Trwsio Difrod Damweiniau – Egwyddorion Paent
Cymwysterau ategol priodol i ehangu eich set sgiliau a diwallu anghenion y diwydiant
Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg

Beth a ddisgwylir ohonof i?

4 TGAU gradd D neu uwch, i gynnwys Mathemateg a Saesneg (neu Gymraeg iaith gyntaf); neu Diploma lefel 1 addas a TGAU gradd D neu uwch mewn Mathemateg a Saesneg (neu Gymraeg iaith gyntaf)

Beth sy'n digwydd nesaf?

Lefel 3 mewn Egwyddorion Paent, gwaith yn y diwydiant modurol neu Brentisiaeth mewn

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Trwsio Cyrff Cerbydau.

Gwybodaeth Ychwanegol

Byddwch angen Cyfarpar Diogelu Personol, fel esgidiau ac oferôls, a fydd yn costio oddeutu £40.00. Hefyd, bydd angen ichi ddarparu eich defnyddiau ysgrifennu eich hun.